# TROSOLWG O ADDYSG

## Cyflwyniad

Yn 2000, roedd tua 110 miliwn o blant ledled y byd yn colli'r cyfle i gael addysg. Cyfarfu arweinwyr y byd gan addo, erbyn diwedd 2015, y byddai'r holl fechgyn a merched yn cwblhau cwrs addysg gynradd llawn. Ffurfiodd yr addewid hwn yr ail o blith wyth Nod Datblygu'r Mileniwm (NDM 2).
Ffocws cynnar NDM 2 oedd cofrestru plant yn yr ysgol, a gwnaethpwyd llawer o gynnydd pan roddodd nifer o wledydd y gorau i godi ffioedd ysgol, a gwelwyd llawer o blant yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf. Ond, yn fwy diweddar, mae'r cynnydd tuag at addysg gynradd i bawb wedi arafu. Yn 2015, roedd 58 miliwn o blant nad oeddent yn mynychu'r ysgol o hyd. Roedd llawer ohonynt yn ferched, yn blant anabl ac yn blant a oedd yn byw mewn gwledydd yr effeithiwyd arnynt gan argyfyngau tebyg i wrthdaro, newyn a thrychinebau naturiol. Methwyd y targed a osodwyd gan NDM 2.

*Gwers Mathemateg Blwyddyn 5 yn Mandanpur Khadar, Delhi.*
*Llun: David Levene/GCE UK*



This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.
Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

## Y Nodau Datblygu Cynaliadwy

Yn 2015, trodd arweinwyr y byd eu sylw at y Nodau Datblygu Cynaliadwy newydd, a ddisodlodd Nodau Datblygu'r Mileniwm. Mae'r pedwerydd Nod Datblygu Cynaliadwy (NDC 4) yn addo "sicrhau addysg gynhwysol a theg o ansawdd, a hybu cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb".

Mae'r sylw bellach yn troi oddi wrth gofrestru plant yn yr ysgol, i feddwl am ansawdd yr addysg y maent yn ei chael. Er enghraifft, mae materion fel nifer yr athrawon cymwysedig, maint dosbarthiadau, a seilwaith ysgolion wedi dod yn bwysicach.

Yn ogystal, mae'r ffocws ar ddysgu gydol oes yn anelu at oresgyn lefelau uchel o anllythrennedd ymhlith oedolion, ynghyd â'r duedd i niferoedd mawr o blant adael y byd addysg ar ddiwedd yr ysgol gynradd. Yn 2016, roedd cynifer â 263 miliwn o blant a phobl ifanc yn colli'r cyfle i gael addysg gynradd ac uwchradd.

Mae darparu addysg dda i bawb yn dipyn o her. Mae llawer o'r rhwystrau, er enghraifft tlodi, anghydraddoldeb ar sail rhyw, ac anabledd, yn anodd eu goresgyn. Mae rhwystrau eraill wedi dod i'r amlwg yn fwy diweddar. Mae'r rhain yn cynnwys yr heriau a achosir gan wrthdaro a thrais, trychinebau naturiol, ac epidemigau iechyd, er enghraifft yr achosion o feirws Ebola yng Ngorllewin Affrica yn 2014.

Mae i'r heriau hyn oblygiadau o ran ariannu, gan fod angen mwy o fuddsoddiad mewn addysg er mwyn cyflawni NDC 4. Fodd bynnag, nid yw'r gwledydd cyfoethog yn darparu'r holl gymorth y maent wedi'i addo, ac nid yw rhai gwledydd, sydd â llawer o blant nad ydynt yn mynychu'r ysgol, yn gwario digon o arian ar addysg, hyd yn oed os ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny.

## Syniadau addysgu pellach

- Dangoswch y fideo 1 Goal: 2 Girls Born On The Same Day *(2 funud 25 eiliad):* a thrafodwch effaith addysg ar fywydau pobl.
- Gofynnwch i'r bobl ifanc ymchwilio i'r rhesymau gwahanol pam y mae rhai plant yn colli'r cyfle i gael addysg, a beth sy'n cael ei wneud i newid hyn. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys rhyw, gwrthdaro, anabledd, trychinebau naturiol, neu'r ffaith nad oes gan wledydd y cyllid i redeg ysgolion.
- Gofynnwch i'r bobl ifanc ddysgu am yr Ymgyrch Fyd-eang ar gyfer Addysg, neu anogwch nhw i gymryd rhan yn yr ymgyrch Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol flynyddol.
- Aeth Emily a George, o Ysgol Gyfun Plasmawr yng Nghaerdydd, i Ghana yn 2015 i ddarganfod pam y mae cynifer o blant yn colli'r cyfle i gael addysg. Gwyliwch y ffilm a wnaethpwyd ganddynt (7 munud 40 eiliad), a darllenwch eu dyddiadur i ddysgu rhagor am addysg yn Ghana.
- Ar ôl dysgu am addysg i bawb, gall y bobl ifanc ddod ynghyd i gwrdd â'u AS, er mwyn darganfod beth y mae ef/hi yn ei wneud i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael addysg dda. Gallwch ddefnyddio'r ddolen hon i ddarganfod pwy yw eich AS.



This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.
Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

## Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.



This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.
Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841